

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 7 IONAWR 2020

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cyngorydd W.Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen, E.Lovgreen,
W.R.Owen, J.W.Parry, K.Richards, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas,
R.Thomas

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr E.Hughes, B.Owen, C.Williams

2. Cyhoeddiadau'r Maer

5.12.2019	Noson Nadoligaidd y Cyngor
10.12.2019	Cyngerdd Ysgol Pendalar
11.12.2019	Recordio sgwrs ar y Sgrîn Fawr
15.12.2019	Cychwyn dwy ras, Clwb Rygbi
18.12.2019	Agoriad swyddogol adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd

Galw yn Ysbyty Eryri a Chartref Nysrio Bryn Seiont gyda bisgedi.

3. Datgan Buddiant Personol

Eitem 6 – Cyfrifon – y Cyngorydd W.R.Owen

Eitem 16 – Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – y Cyngorydd
M.Sarnacki. Gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar y Gwasanaeth
Fasciwlar.

Eitem 19 – Rhybuddion o Gynnig – (ii) Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol yng
Nghaernarfon – y Cyngorydd W.R.Owen

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc).

(a) Calendr y Cyngor – fersiwn ddiwygiedig

Dosbarthodd y Clerc fersiwn ddiwygiedig o galendr y Cyngor, gyda'r
diwygiadau canlynol:

- Ychwanegu'r Orymdaith Wyl Ddewi ar ddydd Llun, 2il o Fawrth.
- Symud Seremoni Sefydlu'r Maer o'r 14eg o Fai i'r 21ain i Fai (trydydd dydd Iau yn mis Mai).

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

(b) Cronfa Nadolig y Maer

Nododd y Clerc fod y Gronfa wedi rhedeg yn isel, a bod croeso i unrhyw un o'r Cyngorwyr gyfrannu os mai dyna oedd eu dymuniad.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 3ydd o Ragfyr 2019

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

ii. Panel Cyllid a Staffio, 16eg o Ragfyr 2019

Nodwyd y penderfynwyd trafod yr eitem hon llaw yn llaw efo eitem 8 (Meysydd Parcio) ac eitem 9 (Praesept) gan fod yr eitemau hyn yn gysylltiedig efo'i gilydd.

Penderfynwyd:

- (1) Derbyn fel rhai cywir, yn cynnwys yr holl argymhellion. Mae hyn yn cynnwys, yn sgîl yr holl wybodaeth dderbyniwyd, peidio â chodi'r Praesept ar gyfer 2020/21 (unfrydol).**
- (2) Derbyn yr argymhellion yn deillio o'r trafodaethau isod:**

Yn codi:

Eitem 4 - Apêl Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021

Penderfynwyd cadarnhau'r penderfyniad i gyfrannu'r symiau canlynol tuag at Apêl Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021:

- **2019/20 - £5,000 (er fod £7,000 wedi eu clustnodi yn yr Amcangyfrifon).**
- **2020/21 - £5,000**
- **2021/22 - £5,000**

Fodd bynnag, dylid adolygu'r sefyllfa ar ôl y flwyddyn gyntaf.

Meysydd Parcio

Nodwyd y byddai incwm ar gael i'r Cyngor Tref os y dymunai fynd lawr y drefn o derbyn 10% o incwm meysydd parcio yn y dref o'r 1af Ebrill 2020 (gan gofio

fod hyn yn golygu cynyddu'r gost o 10%). Ar sail ffigyrau 2018/19, byddai'r incwm yn debygol o fod yn £46,861.97, ac y byddai hyn yn cael effaith ar unrhyw benderfyniad o ran y Praesept.

Penderfynwyd derbyn y cynnydd o 10% yn y costau o barcio yng Nghaernarfon o'r 1af Ebrill, 2020, gan ddatgan y dylai unrhyw incwm ychwanegol gael ei wario er budd y gymuned leol, ac y dylid cynllunio dros gyfnod o 3 blynedd.

Pleidleisiodd y Cyngorwyr W.R.Owen a J.W.Parry yn erbyn y cynnig a bu i'r Cyngorwyr S.Sage a M.Sarnacki ymatal eu pleidlais .

6. Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu (unfrydol).

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth (unfrydol).

8. Meysydd Parcio

Gweler eitem 5 uchod.

9. Praesept

Gweler eitem 5 uchod.

10. Hen Fynwent Llanbeblig

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan y Clerc ar Fynwent Llanbeblig, yn nodi y gofynnwyd iddo godi'r mater gerbron y Cyngor o ran cyflwr hynod flêr yr Hen Fynwent, efo llystyfiant yn rhwystro pobl rhag mynd at y beddi. Roedd yr Eglwys yng Nghymru wedi derbyn arian gan y Cyngor Tref yn flynyddol i gynorthwyo gyda hyn. Yr Eglwys yng Nghymru oedd yn berchen ar y tir.

Nodwyd ymhellach fod gwaith mawr iawn i dacluso'r safle, a bod gwirfoddolwyr wedi gweithio'n galed i wneud hyn yn y gorffennol – gwaith trwm a chaled iawn.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc drefnu cyfarfod gyda'r Eglwys yng Nghymru er mwyn cael diweddariad o ran y cynlluniau i dacluso'r safle (unfrydol).

11. Adeilad yr Institiwt

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan y Clerc ar Adeilad yr Institiwt, a oedd wedi bod mewn trafodaethau gyda cwmni Ap Thomas Cyf.

Nododd y Clerc fod y blaenoriaethau'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- (1) Darparu cynlluniau llawr cyfredol.
- (2) Trefnu archwiliad tamprwydd a cyflwr coed.
- (3) Cynnal archwiliad trydanegol.
- (4) Cael archwiliad larwm tân, a gwneud asesiad risg tân.
- (5) Cynnal archwiliad strwythyrol.
- (6) Trefnu cael archwiliad 'drone' ar gyflwr y tô.

Penderfynwyd:

- (1) Awdurdodi'r Clerc i barhau gyda'r gwaith.**
- (2) Trosglwyddo'r gath wyllt fel rhodd i Brifysgol Bangor, ar yr amod y gall y Cyngor Tref ei benthyg pe byddai angen, gan roi amod pellach na ddylai'r Brifysgol werthu'r gath (unfrydol).**

12. Adfywio Caernarfon

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan y Clerc ar yr uchod.

Nododd y Clerc:

- (1) Ei fod wedi derbyn e-bost gan Rheolwr Prosiectau Strategol, Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd yn datgan eu bod yn gweithio ar gais am arian ar gyfer marchnata Caernarfon fel cyrchfan yn sgîl buddsoddiadau diweddar drwy Gynllun TAD.
- (2) Y gofynnir i'r Cyngor Tref anfon llythyr / nodyn o gefnogaeth i'r cais erbyn y 14eg o Ionawr.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon nodyn o gefnogaeth i'r cais i Reolwr Prosiectau Strategol, Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd erbyn y 14eg o Ionawr (unfrydol).

13. Cynllun Bioamrywiaeth

Cyflwynwyd - Cynllun Bioamrywiaeth drafft ar gyfer y Cyngor.

Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, o dan Adran 6, Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016, i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn y bwriedir ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gynnal a chryfhau Bioamrywiaeth.

Penderfynwyd gofyn i'r aelodau gyflwyno sylwadau ar y Cynllun drafft i'r Clerc erbyn diwedd mis Ionawr (unfrydol).

14. Dogfen ymgynghori – newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig

Cyflwynwyd – gwybodaeth o ran yr uchod, oedd yn nodi bod ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi sy'n ceisio barn ar newidiadau arfaethedig i ffioedd cynllunio. Gellir gweld manylion yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru yn:

https://llyw.cymru/newidiadau-i-ffioedd-cynllunio-cheisiadau-cysylltiedig?_ga=2.208432722.1926474314.1576494937-1869591993.1570433432

Gwahoddir ymatebion i'r papur ymgynghori erbyn y 13eg o Fawrth.

Penderfynwyd nodi'r uchod (unfrydol).

15. Gwasanaeth OWL Cymru

Cyflwynwyd gwybodaeth o ran yr uchod, oedd yn nodi, heb gymorth ariannol, nad oedd yn bosib cynnal y sustem OWL fel ag yr oedd.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth, ond gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau o ran ydi'r Cyngor Tref yn cyfrannu at y Cynllun ar y funud, ac i ddarganfod fwy o fanylion o ran beth mae'r cynllun yn ei gynnig (unfrydol).

16. Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Gogledd Cymru

Cyflwynwyd - gohebiaeth dderbyniwyd gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru am faterion amrywiol fel y Fferyllfa ar y Maes a'r Gwasanaeth Fasciwlar yn yr ardal, a cafwyd trafodaeth fanwl am eu cynnwys.

Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi gwneud sylwadau o ran y canlynol mewn holiadur diweddar at y Cyngor Iechyd Cymuned:

- Y newidiadau mawr a wnaed ym mis Mawrth eleni i ddarpariaeth Gwasanaethau Fasgwlaidd yn yr ardal leol.
- Y sefyllfa o ran fferyllfeydd yng Nghaernarfon.

Roedd y gohebiaeth ar y rhaglen yn cynnwys:

- Copïau o lythyrau at Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Gweinidog Iechyd yn mynegi pryder y CIC ynglŷn â'r sefyllfa.
- Bod y CIC wedi derbyn sicrwydd gan BIPBC y bydd adolygiad allanol o'r newidiadau a, gyda hyn mewn golwg, mae CIC Gogledd Cymru yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu a'r cyhoedd.
- Datganiad i'r Wasg sy'n nodi amserlen ar gyfer y digwyddiadau hyn.
- Mae CIC Gogledd Cymru wedi cysylltu â Fferyllfa Rowlands ynglŷn a'r pryderon ac amgaewyd gopi o'r ymateb a dderbyniwyd.

Fferyllfa ar y Maes

Penderfynwyd (yn unfrydol) i ysgrifennu at Fferyllfa Rowlands i ddatgan nad yw'r sefyllfa wedi gwella yno, gan fod problemau dal i fodoli.

Gwasanaeth Fasciwlwr

Penderfynwyd (yn unfrydol):

- (1) Ysgrifennu eto at y Lywodraeth y Cynulliad yn datgan pryder am y problemau enbyd o ran y Gwasanaeth Fasciwlwr.
- (2) Ysgrifennu eto at y Cyngor lechyd Cymuned i ofyn pa gamau y dylid eu cymryd o ran y Gwasanaeth Fasciwlwr.
- (3) Ysgrifennu at Aelod y Cynulliad yn mynegi pryder am y sefyllfa.
- (4) Nodi siom am leoliad y digwyddiadau ymgysylltu.

17. Oriel Gelf ar gyfer Caernarfon

Cyflwynwyd – gwybodaeth o ran yr uchod.

Nodwyd:

- (1) Bod Peter Lord a Dafydd Wigley wedi cyfarfod David Anderson, Pennaeth yr Amgueddfa Genedlaethol, ac Andrew Renton, Ceidwad yr Adran Gelf, o ran y potensial i gyd-lynu'r syniad sy'n bodoli gyda datblygiadau sydd ar y gweill gan yr Amgueddfa ar gyfer datblygiadau yn Llanberis a'r gogledd-orllewin yn gyffredinol.
- (2) O safbwynt yr Adran Gelf, trafodwyd y potensial i gydweithredu.
- (3) Y bu trafodaeth hefyd am dynnu mewn mwy o bratneriaid potensial, megis Prifysgol Bangor.
- (4) Y bydd cyfarfodydd pellach cyn diwedd y mis.
- (5) Y tebygolrwydd yw na fydd y Banc yn cael ei werthu'n gyflym oherwydd ei gyflwr.
- (6) Y bydd y Grŵp Gweithredu'n cynnal cyfarfod arall fis Chwefror.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a gofyn i'r Clerc gysylltu gyda Rhiannon James i ofyn iddi wahodd y Cynghorwyr Tref perthnasol i'r cyfarfod (unfrydol).

18. Parc Coed Helen

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan y Clerc ar yr uchod.

Nodwyd:

- (1) Bod llawer o bethau sydd angen ateb iddyn nhw os am gyflwyno'r mater gerbron y Cyngor ar y 4ydd o Chwefror, ac y byddai angen Pwyllgor Gwaith arbennig yn ystod mis Ionawr.
- (2) Bod angen ymateb i'r canlynol (ymysg pethau eraill):
 - Sut mae'r trosglwyddiad yn mynd i weithio?
 - Y trefniadau o ran yr offer chwarae.
 - Y trefniadau o ran cyflenwyr cynnal tiroedd.
 - Y trefniadau o ran yswiriant gan mai'r Cyngor Tref fyddai'n gyfrifol am yr Yswiriant o'r 1af o Ebrill.
 - Beth sy'n digwydd o ran y trefniadau i drosglwyddo'r cyflenwadau ynni (trydan, dŵr) efo Adran Eiddo'r Cyngor?
 - Beth sy'n digwydd o ran y PenTerau (Eiddo)?

- Costau parcio ynghyd ag os oedd yn werth rhoi llinellau melyn dwbl yno.
- Oes archwiliad o'r coed wedi bod? Oes TPO's yn bodoli? Faint o'r coed sydd biau ni? Faint o aceri sydd gennym ni?

Penderfynwyd gofyn i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau / gwestiwn i'r Clerc erbyn y 17eg o Ionawr.

19. Rhybuddion o Gynnig

(i) Paratoi ar gyfer ffordd osgoi Caernarfon – Bontnewydd

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Ann Hopcyn:

“Gyda'r gwaith ar ffordd osgoi Caernarfon - Bontnewydd yn debygol o ddod i ben yn gynnar yn 2022, mae'n amserol i'r Cyngor Tref ystyried yr effaith ar y dref a ffordd o gynllunio ar gyfer hynny.”

Nodwyd y gellid dysgu o brofiadau trefi eraill sydd wedi cael ffordd osgoi, er enghraifft Porthmadog neu Dolgellau, a'i bod yn bwysig fod y Cyngor Tref efo llais. Byddai pot o arian i gefnogi busnesau lleol yn ystod y cyfnod o newid yn ddefnyddiol.

Penderfynwyd:

- (1) Gwneud cais i Gyngor Gwynedd bod y Cyngor Tref yn cael ei gynnwys yn yr holl broses gynllunio.**
- (2) Gofyn os y caiff cynrychiolydd o'r Cyngor Tref fynychu'r cyflwyniad anffurfiol mae Cyngor Gwynedd yn ei drefnu i esbonio'r cynlluniau diweddaraf.**

7.15 p.m. – Y Cynghorwyr W.L.Davies a W.R.Owen yn gadael y cyfarfod.

(ii) Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol yng Nghaernarfon

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Dawn Jones:

“Gan fod digwyddiadau gwrth-gymdeithasol ar gynnydd yng Nghaernarfon, yn arbennig dros gyfnod y Nadolig, ystyried sut gall y Cyngor Tref gyfrannu tuag at leihau'r broblem.”

Nodwyd bod cwynion wedi dod i law am ymddygiad gwrth-gymdeithasol dros gyfnod y Nadolig ym Maes Parcio, Penllyn. Roedd y larwm tân wedi canu drwy'r nos ar ddwy achlysur, gyda phlant yn malurio'r safle. Roedd Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflogi Cwmni Diogelwch i ofalu am y safle.

Roedd yr Heddlu cyfarfod plant a phobl ifanc yn "Costa Coffee" ar yr 8fed o Ionawr, ac roedd gwahoddiad i gynghorwyr fynychu.

Nodwyd ymhellach bod prinder PCSO's yng Nghaernarfon ond bod trefniadau ar waith i wella'r sefyllfa, a bod pryder yn lleol nad oedd neb yn monitro'r CCTV yn y dref 24 awr y diwrnod.

Roedd y mwyafrif llethol o bobl ifanc y dref yn ymddwyn yn wych, ond roedd angen edrych ar gynyddu'r opsiynau o ran gweithgareddau i bobl ifanc wneud.

Un posibilrwydd oedd edrych ar sut roedd ardaloedd eraill wedi mynd i'r afael efo ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Penderfynwyd:

- (1) Gwahodd Prif Arolygydd yr Heddlu i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn, os yn bosib, er mwyn trafod y problemau yng Nghaernarfon.**
- (2) Trafod y sefyllfa o ran CCTV yn y Pwyllgor Gwaith.**
- (3) Ymgynnull Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar y sefyllfa yng Nghaernarfon.**

20. Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru

Cyflwynwyd - gwybodaeth fod Cinio Blynyddol Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru yn cymryd lle yng Nghlwb Golff Caernarfon ar nos Sadwrn, y 15fed o Chwefror.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a gofyn i'r Clerc anfon gwahoddiad i'r holl aelodau i fynychu'r Cinio Blynyddol (unfrydol).

21. Cwestiynau

Dim.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.35 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad